Ail gyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, 18 Gorffennaf 2007, Canolfan Ymwelwyr Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr.

Cofnodion

Yn bresennol

	Enw	Sefydliad
	Adam Rowe	Canolfannau Cofnodion Lleol
	David Jenkins	Coed Cymru
	Diana Reynolds	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dr	Glenda Thomas	Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt
	Jeff Morgan yn cynrychioli Brian Nelson	Dŵr Cymru
Dr	John Morgan yn cynrychioli'r Athro Michael Bruford	Prifysgol Caerdydd
	Michelle Bromley	Y Comisiwn Coedwigaeth
Dr	Mike Dunn	Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Deb Spillards yn cynrychioli Dr P Graham Oliver	Amgueddfa Genedlaethol Cymru
	Richard Ellis yn cynrychioli David Bullock/Helen Buckingham	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
	Steven Bromley	Groundwork Cymru
Dr	Tim Stowe	RSPB
	Alison Smith	Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
	Gareth Ellis	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
	Russell De'ath	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Dr	Jim Latham	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
	Sarah Mellor	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
	Helena Towers	Llywodraeth Cynulliad Cymru – Swyddog Polisi Morol
	Michelle Calnan	Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
	Sean McHugh	Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Dr	Juliet Hynes	Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Y Cyngh.	Robin Woodyatt	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
	Deb Hill	Cymdeithas Llywodraeth Leol

		Cymru
	Steve Moon	Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol
	Hazel Drewett	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
	Nigel Ajax Lewis	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
	Nick Bialynicki-Birula	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad	Statws PBC
David Parker	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	GLl
Ieuan Hughes Roberts	Cymdeithas Edward Llwyd	GLl
Liz Howe	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Cyflwyno papur
Gaynor Ainscough	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Ysgrifenyddiaeth
Julia Korn	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Ysgrifenyddiaeth
Aethne Cooke	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Cyflwyno papur
Catherine Duigan	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Cyflwyno papur
Ioan Jenkins	BCTV	GLl
David Cowley	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn	GLl Cyflwyno papur

Cyflwyniad 1 a Thrafodaeth: Cyfeiriodd Russell De'ath, cydgysylltydd grantiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, at fuddsoddiad grant y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer 2006-2007 a hefyd at yr adolygiad o'r broses grantiau sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae'r cyflwyniad i'w weld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn: http://www.biodiversitywales.org.uk/English/Library/default.aspx?pid=2.

- **CAM GWEITHREDU 1:** Yr ysgrifenyddiaeth i weithio gyda'r Cyngor Cefn Gwlad er mwyn ystyried sut y gellid sefydlu swyddog cyllido – i helpu aelodau'r bartneriaeth i ddod o hyd i ffrydiau ariannu addas, gan gynnwys arian cyfatebol – ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf (Tach).

- **CAM GWEITHREDU 2:** Yr ysgrifenyddiaeth i weithio gyda'r Cyngor Cefn Gwlad er mwyn edrych sut y gallai Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru helpu i flaenoriaethu meysydd grant y Cyngor Cefn Gwlad ac ychwanegu gwerth o safbwynt bioamrywiaeth at bob ffrwd ariannu.

Papur 4: Egwyddorion a Chamau Gweithredu yn ymwneud â'r Môr a Dŵr Croyw. Nid oedd yr arbenigwyr ar gael heddiw, oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld, felly cytunodd Hazel Drewett (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) i gasglu unrhyw bwyntiau a mynd â hwy'n ôl gyda hi i'r Cyngor Cefn Gwlad. Roedd Helena Towers yn bresennol i roi adborth i'r Tîm Pysgodfeydd Morol a Phartneriaeth Arfordir Morol Cymru ynglŷn ag unrhyw faterion.

Mae'n bosib y bydd ychydig o arian (£5,000) ar gael o gyllideb y Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer y camau gweithredu hyn.

Egwyddorion:

- **PENDERFYNIAD:** Cymeradwywyd egwyddorion y **Môr a Dŵr Croyw** heb ragor o newidiadau.

Camau Gweithredu Brys y Môr a Dŵr Croyw:

Gofynnwyd am gynigion gan unigolion neu sefydliadau a fyddai'n fodlon helpu gyda'r camau gweithredu a nodwyd yn yr atodiad i bapur 4.

Nick Birula (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) yn gefnogol iawn i'r dull gweithredu ond yn bryderus ynglŷn â mwy nag un arweinydd yng ngholofn olaf y tabl. Cynigiodd aelodau PBC eu cefnogaeth fel hwyluswyr mewn cyfarfodydd.

- **CAM GWEITHREDU 3:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru i arwain â'r gwaith o sefydlu neu adnewyddu deialog gyda phartïon allweddol ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu hyn; gofyn am waith hwyluso/cefnogaeth gan aelodau PBC yn ôl y galw.

Cam gweithredu arfaethedig 1. Gwelyau marl) Adroddodd Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru (Jeremy Percy) fod trafodaethau defnyddiol wedi'u cynnal yn barod gyda'r Cyngor Cefn Gwlad a'r diwydiant pysgota lleol, sy'n barod i gynnig cytundeb gwirfoddol i leihau llusgrwydo cregyn bylchog. A thrafod posibiliadau ar gyfer cynllun rheoli pysgodfeydd er mwyn cynnal pysgodfeydd traddodiadol, bychain. Cytunodd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (Alison Smith) i ymchwilio i gymorth economaidd posibl i gefnogi camau gweithredu o'r fath.

Cam gweithredu arfaethedig 2. Wystrys brodorol) Yr oedd y Gangen Polisi Morol yn bryderus ynglŷn ag "atal defnydd". Bydd hyn yn arwain at wrthdaro gyda physgotwyr. Mae angen cyfaddawd. Cafwyd sylw tebyg mewn adborth a anfonwyd gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru (Stephen Atkins). Mae Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru'n barod i roi cynnig ar wahanol batrymau pysgota mewn lleoedd fel hyn ond mae angen cymorth ariannol. Dywedodd Tim Stowe fod angen cadw ar yr ochr iawn i bobl ond ei bod yn bosib y byddai angen gwaharddiadau pysgota dros dro er mwyn i'r stoc allu dod yn ôl i bwynt lle gellir ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

- **CAM GWEITHREDU 4:** Alison Smith (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth) i ymchwilio i effeithiau economaidd y ddau gam gweithredu hyn, gyda'r bwriad o gael cefnogaeth ariannol gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth os yn bosib.
- **CAM GWEITHREDU 5:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru i sefydlu/parhau â thrafodaethau gyda Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

Cam gweithredu arfaethedig 3. Gwelyau marchfisglod) Awgrymodd Richard Ellis (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) y gellid cael gwybodaeth arbenigol gan Ogledd Iwerddon gan eu bod wedi cael problemau tebyg yno. Roedd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru'n bryderus nad oedd y poblogaethau hyn yn bodoli mwyach. Os ydynt yn dal yno yna awgrymir ardaloedd caeedig.

- **CAM GWEITHREDU 6:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru i gysylltu â Gogledd Iwerddon a bwydo'r profiad hwn i drafodaethau
- **CAM GWEITHREDU 7:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru i gadarnhau a yw'r boblogaeth yn bodoli o hyd

Cam gweithredu arfaethedig 4. Gwelyau morwellt) Dwedodd Richard Ellis fod y lleoliad hwn yn dioddef yn fawr a bod yn rhaid datrys y broblem.

- **CAM GWEITHREDU 8:** Hazel i holi'r Cyngor Cefn Gwlad beth yn union yw'r sefyllfa

Camau gweithredu arfaethedig 5-6. Traethellau lleidiog) Dywedodd Nick Birula fod angen i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ddefnyddio mecanweithiau asesu priodol fel y mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi'i wneud ar afon Dyfrdwy.

- **CAM GWEITHREDU 9:** Hazel i holi a yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi siarad gyda'r heddlu ynglŷn â defnyddio cerbydau ar draethellau llaid

- **CAM GWEITHREDU 10:** Nick i drafod profiad afon Dyfrdwy gyda'r Cyngor Cefn Gwlad

Cam gweithredu arfaethedig 7. Herlod a Gwangod) Roedd Coed Cymru wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn gosod llwybrau pysgod pren, sy'n rhatach na choncrit, sy'n gadael llai o ôl troed carbon ac sydd hefyd yn effeithiol iawn. Nodwyd hefyd (gan Robin Woodyatt (CLlLC)) y dylid cynnwys cymdeithasau pysgotwyr a genweirwyr ynghyd â phartneriaid arweiniol yn y camau gweithredu hyn.

- **CAM GWEITHREDU 11:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru i gysylltu â chymdeithasau genweirwyr perthnasol

Cam gweithredu arfaethedig 8. Llynnoedd Mesotroffig ac Ewtroffig)

- **CAM GWEITHREDU 12:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru i asesu faint y byddai'r arolygon yn ei gostio ac i gwblhau'r rhain neu adrodd ynglŷn â'r prinder arian

Cam gweithredu 9. Pysgod estron) Mae cael yr hawliau pysgota'n broblem gan fod yn rhaid i'r deiliaid presennol fod yn barod i'w gwerthu. O ganlyniad, mae angen ateb arall. Un awgrym oedd gweithio gyda physgotwyr carp i greu llynnoedd pysgota carp newydd yn yr un ardal ac adleoli'r stociau o bysgod estron. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rai sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn â llynnoedd.

- **CAM GWEITHREDU 13:** Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i anfon sylwadau ynglŷn â llynnoedd at yr ysgrifenyddiaeth.
- **CAM GWEITHREDU 14:** Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried a allai Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ddarparu arian ar gyfer y math hwn o waith.

Nid oedd mwy o amser ar gyfer y papur hwn felly:

- **CAM GWEITHREDU 15:** unrhyw sylwadau neu wybodaeth am wirfoddolwyr ar gyfer camau gweithredu 10-19 i'w hanfon drwy e-bost at yr ysgrifenyddiaeth, nes y bydd y rhan hon yn cael ei hailgyflwyno yn y cyfarfod nesaf

Papur 5: Targedau a Rhestrau Rhywogaethau a Chynefinoedd

***DS:** Nid y ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ardal o goetir brodorol oedd y rhai terfynol a chawsant eu cynnwys mewn camgymeriad. Bydd Liz Howe yn darparu'r ffigurau terfynol pan fydd wedi derbyn unrhyw sylwadau eraill gan fod newidiadau i'w gwneud hefyd mewn perthynas â morfeydd heli.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd rhestr blaenoriaethau'r DU.

Mae'r rhestr ar gael yn awr, ac yn mynd drwy gyfnod ymgynghori o 6 mis. Mae Grŵp Adrodd a Gwybodaeth Bioamrywiaeth y DU wedi nodi'r 3 cam gweithredu cyntaf ar gyfer pob rhywogaeth ac mae wrthi'n grwpio rhywogaethau o fewn cynefinoedd.

Mae targedau cynefinoedd Cymru wedi cael eu rhannu i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Er mwyn symud ymlaen yn gyflym â'r broses o adolygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu gyda'r bwriad o addasu rhestr y DU yn rhestr Gymreig.

- **CAM GWEITHREDU 16:** Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i baratoi rhestr o flaenoriaethau Cymreig ar gyfer cyfarfod nesaf y grŵp llywio (Tachwedd)
- **CAM GWEITHREDU 17:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur i weithredu'r "Camau Nesaf", gan gynnwys trefniadau partneriaid arweiniol, fel y maent wedi'u nodi ym Mhapur 5: Atodiad 1

Papur 6: Cysylltedd Cynefinoedd

Mae'r tabl a gyflwynwyd ym Mhapur 6: Atodiad 1, yn dangos y gwahanol lefelau pwysigrwydd ar gyfer camau cysylltedd. Rhagwelir y gellid defnyddio'r tabl i ddatblygu fframwaith/strategaeth integredig ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth. Awgrymodd Mike Dunn, gan y bydd angen egluro'r prosiect hwn yn aml i randdeiliaid newydd, y dylai'r Cyngor Cefn Gwlad ddatblygu dogfen eglurhaol sy'n gyffrous ac yn gryno, ac sy'n cynwys negeseuon amlwg sy'n hawdd i bobl nad ydynt yn arbenigwyr eu deall (enghraifft dda o hyn yw'r prosiect Monarch). Dywedodd David Jenkins fod llawer o bobl yn ymwybodol o newid yn yr hinsawdd erbyn hyn ac, o ganlyniad, y dylid

defnyddio hynny fel ffocws. Gallai hefyd arwain at ffrydiau ariannu ychwanegol. Fodd bynnag, y farn arall oedd bod angen i'r wyddor fod yn gywir cyn ei dehongli i'r cyhoedd.

- **CAM GWEITHREDU 18:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru i weithio gyda'r gymuned academaidd er mwyn nodi bylchau a blaenoriaethau ar gyfer polisi a gweithredu; pa grwpiau o rywogaethau fyddai'n elwa o'r math hwn o waith ac ar ba lefel a defnyddio hyn er mwyn ehangu'r tabl e.e. ychwanegu anghenion ymchwil a chyflwyno papur mwy cynhwysfawr yng nghyfarfod nesaf y grŵp llywio (Tachwedd).

- **CAM GWEITHREDU I BAWB 19:** Cyflwyno sylwadau yn nodi a yw strwythur y tabl yn gwneud synnwyr, ychwanegu unrhyw fecanweithiau neu ffynonellau ariannol ychwanegol – sylwadau i'w hanfon at Jim Latham [j.latham@Cyngor Cefn Gwlad Cymru.gov.uk] erbyn 31 Awst 2007.

Cyflwyniad 2: Alison Smith Adran yr Economi a Thrafnidiaeth – Cael gafael ar ffynonellau ariannu amgen ar gyfer bioamrywiaeth.

Amlinellodd Alison y mathau o feysydd sy'n cael eu hariannu gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth megis mynediad, adfywio, adfer tir a thrin tir halogedig, ymchwil (clymog Japan) a Chanolfannau Cofnodion Lleol ymhlith eraill. Disgrifiwyd nifer o brosiectau enghreifftiol a gofynnodd Alison i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ystyried mater ariannu mewn ffordd wahanol drwy feddwl beth y byddai sectorau ariannu eraill eisiau ei glywed, er enghraifft, mae llawer o'r prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn ymwneud â gwella ac adfywio ardaloedd yng Nghymru gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau gwell economi a seilwaith cymdeithasol, ond mae hyn hefyd yn cynnwys gweithgareddau sy'n cefnogi bioamrywiaeth fel rhan o wella'n hamgylchedd.
Bydd y cyflwyniad i'w weld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:
<http://www.biodiversitywales.org.uk/cymraeg/Library/default.aspx?pid=2>

- **CAM GWEITHREDU 20:** Bydd Michelle Bromley'n siarad gydag Alison ynglŷn â phrosiect coedwigaeth drefol 'Treegeneration' a all fod o fudd i fioamrywiaeth mewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd.

Cyfeiriodd CLlLC (Deb Hill) at y gwahaniaeth rhwng darpariaethau arian cyfatebol y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

- **CAM GWEITHREDU 21:** Diana Reynolds i ymchwilio i reoliadau arian cyfatebol ac adrodd yn ôl.

Papur 9: Gwaith cynllunio a chyllidebu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Cyhoeddwyd bod y rhaglen a'r ffurflen archebu ar gyfer Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2007 (12-13 Medi) i'w gweld ar y wefan.

- **PENDERFYNIAD:** Cytunwyd ar y gyllideb a amlinellwyd ym Mhapur 9: Cytunwyd ar Atodiad 1.

- **PENDERFYNIAD:** Cytunwyd ar ddyddiadau amodol ar gyfer cynhadledd 2008, sef 9-12 Medi, ac awgrymwyd Aberystwyth fel lleoliad.

Cwestiynwyd gwerth y gynhadledd (Tim Stowe) gan y byddai o bosib yn well buddsoddi cyllideb y gynhadledd, sef £9k mewn gwaith uniongyrchol ym maes bioamrywiaeth. Awgrymodd Diana Reynolds y gellid edrych ar y mater hwn ar gyfer y dyfodol. Mae'r gynhadledd yn gyfle i ysbrydoli gwaith ym maes bioamrywiaeth yng Nghymru ac efallai y gellid cynnwys y cyhoedd drwy gael siaradwr blaenllaw ar gyfer darlith fin nos neu yn ystod y penwythnos. Ar y llaw arall, efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnal cyfres o weithdai i ateb cwestiynau sy'n codi yng nghyfarfodydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn lle hynny.

- **CAM GWEITHREDU I BAWB 22:** Archebwch le ar gyfer y gynhadledd cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau yw 31 Awst.

- **PENDERFYNIAD:** Bydd pob ffrwd gweithdy'n cael cynnig £500 i £1000 i ariannu camau gweithredu uniongyrchol yn ymwneud â bioamrywiaeth sy'n deillio o'r gweithdy. Yr ysgrifenyddiaeth i wneud y trefniadau gweinyddol i gefnogi hyn.

- **CAM GWEITHREDU 23:** Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cylchredeg gwybodaeth ynglŷn â'r math o gyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer y gynhadledd a lleoliadau posibl.

- **CAM GWEITHREDU 24:** Awgrymodd Cymru y gallai'r nwyddau ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru fod yn nwyddau gan gynhyrchwyr lleol. Byddant yn siarad gyda chynhyrchwyr lleol ynglŷn â hyn ac yn cyflwyno awgrymiadau i'r ysgrifenyddiaeth.

- **CAM GWEITHREDU I BAWB 25:** Os oes gan unrhyw un nwyddau y gallant eu cyfrannu ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2008 dylent gysylltu â Sean (S.McHugh@welshwildlife.org).

- **CAM GWEITHREDU 26:** Yr ysgrifenyddiaeth i ymchwilio a yw'n werth i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fuddsoddi yn y gynhadledd ac ymchwilio i bosibiliadau eraill.

- **CAM GWEITHREDU 27:** Yr ysgrifenyddiaeth i gadarnhau dyddiadau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru, sef 7-15 Mehefin 2008 gyda'r BBC cyn gynted ag y bo modd ac anfon gwybodaeth.

Croesawyd Jane Davidson, y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig i'r cyfarfod.

Papur 10: Pecyn sefydlu ar gyfer Cydlynwyr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Eglurodd Juliet Hynes beth oedd cwmpas a phwrpas y pecyn sefydlu. Dywedodd Tim Stowe ei fod yn 'ymwneud llawer iawn â deddfwriaeth' a bod angen pwysleisio manteision economaidd gwarchod natur ac egwyddorion datblygu cynaliadwy. Cyfeiriodd Tim hefyd at y ffaith nad oedd cyfeiriad at y sector gwirfoddol dan benawdau'r rolau. Dywedodd Coed Cymru y dylid cynnwys cyfeiriad at y 'darlun ehangach' e.e. newid yn yr hinsawdd. Dylid cynnwys materion cynllunio a chyfeiriad at Strategaeth Amgylcheddol Cymru a'r Porth Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (Hazel Drewitt). Awgrymodd CLlLC (Deb Hill) fod angen cyfeiriad at Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a dywedodd Robin Woodyatt na ddylid anghofio am gyfeiriadau at amgylchedd yr afonydd, yn enwedig yr elfen dwristiaeth.
Croesawodd Nick Bialynicki-Birula (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) y syniad o becyn sefydlu ac awgrymodd bod angen gosod popeth yn ei gyd-destun yn y ddogfen â chael dolenni cyswllt â gwefannau.

- **PENDERFYNIAD:** Cymeradwywyd **y** Pecyn Sefydlu ar gyfer Cydlynwyr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer ei gyhoeddi ar y we, gyda fersiwn printiedig yn cael ei lansio yn y gynhadledd ym mis Medi.

- **CAM GWEITHREDU 28:** Bydd Juliet yn cynnwys y sylwadau hyn yn y pecyn sefydlu. Bydd y pecyn sefydlu ar ffurf dogfen â dolenni cyswllt ar gyfer y we sy'n addas i'w hatgynhyrchu fel copi caled neu i'w defnyddio ar y cyfrifiadur. Lle bynnag y bo modd, bydd testun y Fframwaith Bioamrywiaeth yn cael ei ailddefnyddio /cysylltu.

Yn dilyn hyn cyflwynodd Juliet y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio ynglŷn â datblygiadau BARS. Mae swydd hyfforddwr BARS y DU, Loraiza Davies (sy'n cael ei chynnal gan Natural England) wedi cael ei hadnewyddu tan Fawrth 08 ac mae Memorandwm Cytundeb wedi'i arwyddo ar gyfer adnewyddu contract BARS yn 2008. Bydd fersiwn drafft ohono ar gael cyn bo hir. Rhoddir sylw i ganllawiau BARS ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a phartneriaid arweiniol ac awgrymwyd y gellid cael grŵp gorchwyl a gorffen rhithwir i wneud hyn.

- **CAM GWEITHREDU 29:** Yr ysgrifenyddiaeth i ryddhau canllawiau ar gyfer camau nesaf yr adolygiad o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol erbyn diwedd Gorffennaf a chynhyrchu canllawiau manwl mewn pryd ar gyfer cynhadledd mis Medi. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen rhithwir yn cael ei ddefnyddio i lunio'r canllawiau manwl.

Papur 11: Dadansoddiad o fudd-ddeiliaid a chynllun cyfathrebu.

Gofynnodd Diana Reynolds am sylwadau ar y rhestr naw pwynt sydd yn y papur ac am wirfoddolwyr ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen Economi Bywyd Gwyllt Cymru. Gwirfoddolodd Tim Stowe ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Dywedodd Deb Hill (CLlLC) fod angen sefydlu mecanweithiau cyflenwi er mwyn datblygu'r potensial ar y lefel is. Dywedodd Diana y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at y rhestr.

- **PENDERFYNIAD:** Cytunwyd i barhau â'r camau gweithredu yng nghyswllt *Breathing Places*, Economi Bywyd Gwyllt Cymru a Dyletswydd Fioamrywiaeth NERC ac i ehangu'r apêl i'r bartneriaeth i wella dealltwriaeth y cyhoedd a'u cynnwys ym Mhartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

- **CAM GWEITHREDU 30:** Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn diweddaru'r rhestr o fecanweithiau, yn trosglwyddo camau gweithredu perthnasol i'r cynllun gwaith ac yn symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Papur 12: Materion o Bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

- **CAM GWEITHREDU 31:** Seminarau ar gyfer Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth i'w cynnal yn Ne a Gorllewin Cymru (Canolfannau Cofnodion Lleol a'r Ysgrifenyddiaeth i wneud y trefniadau) - CLlLC, Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrannu at y gwaith o gefnogi Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth.

Awgrymodd Deb Hill fod angen rhywfaint o waith dilynol yng nghyswllt rôl Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth, e.e. adroddiadau am gynnydd gan Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth. Eglurodd Diana Reynolds fod cynllun i drefnu cyfarfodydd blynyddol gyda Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth er mwyn cael adborth ganddynt a bydd papur ynglŷn â hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y grŵp llywio.

- **PENDERFYNIAD:** Mewn ymateb i her y broses o adolygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cytunwyd y byddai ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n llunio canllawiau adolygu. (gweler cam gweithredu 29 uchod)

- **PENDERFYNIAD:** Mewn ymateb i farn cydlynwyr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ynglŷn â pha mor bwysig yw hi iddynt hwy bod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n trefnu nwyddau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru'n ganolog, cytunwyd y dylai Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gydlynu'r gwaith o rannu nwyddau addas (gweler adran 25 uchod).

Dywedodd Michelle Bromley (y Comisiwn Coedwigaeth) fod y Comisiwn Coedwigaeth wedi bod yn trafod gweithio gyda Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol gyda Julia Korn. Fodd bynnag, roedd cynnydd pellach wedi'i atal yn awr oherwydd y broses o adolygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru

ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru'n cael problemau tebyg er bod y Cyngor Cefn Gwlad yn dechrau cael gwybodaeth ar BARS.

- **CAM GWEITHREDU 32:** Diana Reynolds, Gareth Ellis, Julia Korn a Michelle Bromley i drefnu cyfarfod i drafod y sefyllfa a darparu papur canllaw i gytuno arno gyda'r Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

- **PENDERFYNIAD:** Cytunwyd i ymestyn y cysyniad o Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth i gyrff sector cyhoeddus eraill (gweler cam gweithredu 38 isod).

Cyflwynodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig y sylwadau a ganlyn i'r cyfarfod cyn ymadael:

Cyhoeddodd Jane Davidson ei bod yn falch iawn o ymuno â ni a'i bod yn credu bod Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn bwysig i'w swyddogaeth hi wrth gyflawni ei phortffolio. Dywedodd ei bod yn teimlo bod newid yn yr hinsawdd yn fater pwysig iawn a'i bod yn awyddus i wneud bioamrywiaeth yn rhan greiddiol o agenda'r Amgylchedd unwaith eto.

Roedd yn awyddus i fynychu'r cyfarfodydd gyda Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth lleol, yn gynnar yn yr hydref, er mwyn eu helpu i ddeall eu rôl drwy weithdai hyfforddiant o safon uchel yn cael eu cefnogi gan ei harweiniad.

Roedd gosod yr amgylchedd ac ynni gyda'i gilydd yn yr un portffolio yn ymdrech fwriadol i fynd i'r afael â'r gwrthdaro cyn datblygu polisi ac awgrymodd y Gweinidog y dylai ysgrifennu at Awdurdodau Lleol i ailddatgan ei hymrwymiad i Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth.

Awgrymodd hefyd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd o bosib yn gallu ymyrryd a chynorthwyo ar faterion megis adroddiadau.

- **CAM GWEITHREDU 33**: Yr ysgrifenyddiaeth i wahodd y Gweinidog i siarad yng Nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac i annog Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth i fynychu'r gynhadledd. [Mae wedi gwneud hynny erbyn hyn]

- **CAM GWEITHREDU 34:** Yr ysgrifenyddiaeth a Chanolfannau Cofnodion Lleol i wahodd y Gweinidog i arwain y Digwyddiadau Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth sydd wedi'u cynllunio'n barod ac i drefnu ail ddigwyddiad yn y Gogledd er mwyn i'r Gweinidog allu cyfarfod pob un o'r hyrwyddwyr.

- **CAM GWEITHREDU 35:** Yr ysgrifenyddiaeth i anfon copi o Becyn Sefydlu'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol at y Gweinidog pan fydd wedi cael ei gwblhau.

Papur 13: Dyletswydd NERC

Mae Diana Reynolds a Joanna Robertson wedi cael gwahoddiad i fynychu cyngor CLlLC ym mis Medi.

- **PENDERFYNIAD:** Cymeradwywyd papurau canllaw'r rhestr wirio fer (atodiadau 1-7 i Bapur 13). Ni thybid bod angen rhai eraill ar hyn o bryd. Cytunwyd y dylid rhoi brand Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru iddynt gan y dylai cymeradwyaeth y gweinidog helpu i roi mwy o statws iddynt.

- **CAM GWEITHREDU 36:** Michelle Calnan i gysylltu â'r gweinidog i gael caniatâd i ddefnyddio enw Llywodraeth Cynulliad Cymru ac i gysylltu hefyd â CLlLC i gael caniatâd i ddefnyddio'u henw hwy hefyd.

- **CAM GWEITHREDU 37:** Cytunwyd y byddai'n fuddiol cysylltu â CLlLC er mwyn sefydlu cysylltiadau ffurfiol rhwng Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a phwyllgorau CLlLC a helpu i ddatblygu a chyflwyno canllawiau hyfforddi NERC fesul cam drwy Gymru gyfan. Diana Reynolds i gyfarfod Hazel, Kevin a David er mwyn rhoi hyn ar waith.

- **CAM GWEITHREDU I BAWB 38:** Yr ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r dadansoddiad o Ddyletswydd NERC fel bod aelodau'n gallu awgrymu cyrff sector cyhoeddus eraill y byddent yn hoffi gweld Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth ar eu cyfer. Yr ysgrifenyddiaeth i sefydlu'r rhain, pan fydd Hyrwyddwyr yr Awdurdodau Lleol yn gweithio'n iawn.

Eitem 14: Nid oedd adroddiad ar Bwyllgor Sefydlog y DU ar gael gan nad oedd David Parker yn bresennol ac roedd Mike Dunn wedi methu ag aros ar gyfer rhan brynhawn y cyfarfod. Credid bod sylw wedi'i roi i bob eitem.

- **CAM GWEITHREDU 39:** Yr ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Mike Dunn rhag ofn bod rhywbeth arall i'w adrodd, ac os hynny, i ddosbarthu'r wybodaeth honno.

Eitem 15: Cadarnhau'r cofnodion a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf
Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir ac nad oedd angen unrhyw newidiadau.

Dyddiad 3ydd cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, 14 Tachwedd 2007 yng Nghastell y Waun.
Dyddiad 4ydd cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, 14 Chwefror 2008 yn y Canolbarth, Bronerion mae'n debyg, os bydd ar gael.

Eitem 16: Unrhyw fater arall

Terfynol 21-11-07

Adam Rowe – Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon cyn bo hir ar gyfer lansiad rhwydwaith Canolfannau Cofnodion Lleol Cymru gyfan yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar 28 Tachwedd 2007.

Steve Moon - Mae Dangosydd Perfformiad Awdurdodau Lleol (Lloegr) yn ymwneud â rheoli safleoedd lleol ac mae i'w fesur gan Bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

- **CAM GWEITHREDU 40:** Steve i anfon cyswllt at Diana Reynolds

Cais Is-grŵp BRAG y DU am wirfoddolwr. Cytunwyd y dylai Mike Bruford, sydd eisoes yn eistedd ar y Pwyllgor BRAG, gynrychioli Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar yr Is-grŵp hwn.

- **CAM GWEITHREDU 41:** Yr ysgrifenyddiaeth i anfon enw Mike Bruford fel cynrychiolydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar Is-grŵp BRAG.